**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-14-01(p4)**

**Dyddiad:** **24 Hydref 2001**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3**
**Teitl:** **Ymateb i Adroddiad gan Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru**

**Nodyn gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

1. Mae'r papur hwn yn ymwneud ag adroddiad Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar ei ymchwiliadau i gwynion a wnaed gan y Meistri F drwy eu cyfreithwyr. (R 11/00-01)

2. Nodir gweithdrefnau'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer ystyried adroddiadau'r Ombwdsmon yn Rheol Sefydlog 21. Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol pan fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion am weithrediadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae rhai o'r digwyddiadau yn yr adroddiad yn dyddio o gyfnod cyn y Cynulliad. Mae'n ofynnol i'r Gweinidog perthnasol yn y Cynulliad gyfeirio'r adroddiad ac ymateb drafft y Prif Weinidog at y Pwyllgor Pwnc priodol o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn yr adroddiad oddi wrth y Prif Weinidog.

3. Yn ei ymateb i adroddiad Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, mae'n ofynnol i'r Prif Weinidog hysbysu'r Ombwdsmon o'r gweithredu neu'r gweithredu a gynigiwyd, lle mae'r Ombwdsmon, fel yn yr achos hwn, wedi canfod bod anghyfiawnder wedi'i achosi i'r person tramgwyddedig o ganlyniad i gamweinyddiad.

4. Mae ymateb drafft y Prif Weinidog yn Atodiad A i'r papur hwn. Mae adroddiad yr Ombwdsmon yn Atodiad B.

5. Gorchwyl y Pwyllgor yw ystyried yr ymateb drafft oddi wrth y Prif Weinidog ac unrhyw wersi ehangach ar gyfer y dyfodol, ac nid i ailagor yr ymchwiliad i'r gwyn ei hunan. Bydd ymateb terfynol y Prif Weinidog i'r Ombwdsmon yn ystyried unrhyw farn a fynegwyd gan y Pwyllgor yn y cyfarfod hwn.

**Cefndir**

6. Ar 5 Hydref 1996, aeth perthnasau Mrs X â hi i gartref nyrsio o eiddo'r Meistri F lle cafodd ei derbyn fel lleoliad y tu allan i oriau. Arhosodd yno hyd nes y bu farw ar benwythnos y 21 Awst 1999. Roedd y cartref nyrsio wedi'i leoli o fewn ardal awdurdod lleol Q, lle'r oedd Mrs X yn byw gyda pherthynas ar y pryd, ond, cyn hynny, roedd wedi byw y rhan fwyaf o'r amser yn ardal awdurdod P. Cytunodd asesiad wedi hynny fod Mrs X wedi'i rhoi mewn cartref nyrsio yn gywir, ond cododd anghydfod rhwng y ddau awdurdod lleol ynghylch pa un ohonynt ddylai fod yn gyfrifol am ariannu ei lleoliad yn y cartref nyrsio. O 28 Mai 1997, dechreuodd awdurdod Q dalu am ffioedd y cartref nyrsio fel "awdurdod y foment" tra'n aros am ateb i'r anghydfod ac yn ddiragfarn i ganlyniad yr anghydfod, ond roedd ôl-daliad o £5,040 mewn ffioedd yn dal yn ddyledus.

7. Nodir yr hyn a ddigwyddodd wedi hynny ym mharagraffau 5-18 o adroddiad yr Ombwdsmon. Yn ei hanfod, ceisiodd yr awdurdodau lleol, ar ôl methu â dod i gytundeb, gael "penderfyniad preswyl arferol" oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol (dros Gymru) o dan adran 32(3) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948. Fodd bynnag, methwyd am gryn dipyn o amser â darparu'r ddogfennaeth ategol angenrheidiol. Ni chafwyd ateb i'r mater yn derfynol hyd nes y gwnaeth y Cynulliad Cenedlaethol benderfyniad o blaid awdurdod Q ar 4 Medi 2000. Aeth cyfreithwyr a oedd yn gweithredu ar ran y Meistri F ar ôl y Swyddfa Gymreig a'r awdurdodau lleol am ateb i'r mater. Yn gyntaf cysylltwyd â'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol ynghylch ymddygiad yr awdurdodau lleol, ac ar ôl hynny Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru mewn perthynas â chysylltiad y Swyddfa Gymreig/Cynulliad. Nid yw'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol wedi ymchwili i hyn eto. Manylion y gwyn yn erbyn y Swyddfa Gymreig/Cynulliad oedd iddynt fod yn araf ac yn fawr o gymorth wrth ymdrin â chais yr awdurdodau lleol am benderfyniad ar adran 32(3) ac iddynt fethu ag ateb yr ohebiaeth yngln â hynny.

**Canfyddiadau**

8. Mae'r Ombwdsmon wedi canfod gwendidau gweinyddol drwy gydol y cyfnod y bu'r Swyddfa Gymreig/Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â'r mater ond mae'n eu hesgusodi am yr oedi yn y cyfnod hyd at Ragfyr 1998 pan gafodd y Swyddfa Gymreig yr ail gais o'r ddau gais gan yr awdurdodau lleol am benderfyniad. Fodd bynnag mae'r Ombwdsmon yn gweld camweinyddiad o ran yr oedi a ddigwyddodd wedi hynny ac yn arbennig rhwng mis Rhagfyr 1998 a mis Gorffennaf 1999. Mae hefyd yn feirniadol o fethiant y Swyddfa Gymreig/Cynulliad i gydnabod ac ymateb i lythyrau oddi wrth y cyfreithwyr a'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol, i fod yn ddigon cydweithredol i fynd ar ôl yr awdurdodau lleol i gyflwyno'r ddogfennaeth angenrheidiol ar ôl Gorffennaf 1999, i gofnodi sgyrsiau ffôn, i roi digon o flaenoriaeth i'r gwaith hwn neu i roi digon o adnoddau ar gyfer y gwaith.

**Iawndal**

9. Mae'r Ombwdsmon o'r farn pe byddai'r Swyddfa Gymreig/Cynulliad wedi ymdrin â'r cais am benderfyniad yn fwy cyflym ac wedi bod yn fwy rhyngweithredol wrth fynd ar ôl yr awdurdodau lleol, gellid bod wedi cyhoeddi'r penderfyniad yn gynharach o lawer nag a wnaed. Yna byddai'r Meistri F wedi cael y ffioedd a oedd yn ddyledus iddynt yn gynharach o lawer.

10. Mae Awdurdod P wedi cytuno i dalu llog ar y ffioedd a oedd yn ddyledus. Mewn ymateb i ganfyddiadau'r Ombwdsmon, mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi cytuno i dalu am ffioedd cyfreithiol y Meistri F wrth fynd ar ôl y mater hwn gyda'r Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad ac i wneud taliad cysur o £250 am y drafferth a'r anghyfleustra a achoswyd i'r Meistri F oherwydd methiannau'r Swyddfa Gymreig/Cynulliad yn yr achos hwn.

**Ymateb Drafft y Prif Weinidog**

11. Mae'r ymateb drafft oddi wrth y Prif Weinidog yn Atodiad A yn derbyn canfyddiadau'r

Ombwdsmon yn ddiamod. Nodaf fod yr Ysgrifennydd Parhaol eisoes wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad at y Meistri F a noda’r cam gweithredu gan y Cynulliad Cenedlaethol i ymdrin â’r methiannau yn adroddiad yr Ombwdsmon.

**Gweithredu**

12. I’w ystyried. Caiff barn y Pwyllgor ar yr ymateb drafft ei gyfleu i’r Prif Weinidog

**JANE HUTT**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Llythyr Drafft oddi wrth y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC at:

Mr Michael Buckley

Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

5ed Llawr

Capital Tower

Heol y Brodyr Llwydion

CAERDYDD CF10 3AG

**ACHOS YR OMBWDSMON R.11/00-01**

Rwyf yn ymateb i’ch llythyr dyddiedig 3 Hydref 2001 yn amgáu copi o’ch adroddiad ar yr achos hwn.

Rwyf wedi nodi eich canfyddiadau o gamweinyddiad a methiannau gweinyddol eraill y Swyddfa Gymreig/Cynulliad Cenedlaethol wrth ymdrin â’r achos hwn, ac, yn arbennig, y modd yr ymdriniodd swyddogion â chyfreithwyr y Meistri F.

Ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, rwyf yn derbyn yn llawn ganfyddiadau eich adroddiad. Fel y

cydnabu’r Ysgrifennydd Parhaol eisoes, mae’n amlwg fod staff y Cynulliad Cenedlaethol wedi methu â gweithredu â’r gofal a’r prydlonrwydd y mae gan y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu bob hawl i’w disgwyl.

Mae’r Ysgrifennydd Parhaol wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad at y Meistri F. Ym mharagraff 41 o’ch adroddiad, mae’n esbonio sut y rhoddir sylw i’r methiannau hyn a’r gwersi ehangach sy’n codi ohonynt.

Ym mharagraff 42 rydych yn sôn am drefniadau iawndal a gynigiwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol i dalu am gostau cyfreithiol y Meistri F a swm ychwanegol am y drafferth a’r anghyfleustra a ddioddefwyd gan y Meistri F, ac ym mharagraff 43 yn eu cymeradwyo. Gallaf gadarnhau y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi’r trefniadau hyn ar waith ac maent mewn cysylltiad â chyfreithwyr y Meistri F yngln â’r costau cyfreithiol cysylltiedig.